# CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL
Cadeirydd: Gethin Pyrs

Nos Lun Mehefin 13eg 2022 am 7.30 y.h.

## Cofnodion - (101)

Croesawyd atom ein Cynghorydd Sirol newydd Gwennol Ellis

Cyflwynwyd disgyblion o'r Ysgol Gynradd sef Cadi, Myfi a Kacie atom yn rhoi cyflwyniad am eu harhosiad preswyl i Kingswood yn ddiweddar. Ymddiheurodd y Prifathro o fethu bod yno gyda nhw oherwydd anhwylder. Diolchwyd iddynt am eu presenoldeb gan y Cyng. Edmund Rees

1. **Ymddiheuriadau**: Cynghorydd Alun Owen.
2. **Presennol**: Cyng. Dewi Ll Evans, Gari B Jones, Gerallt Jones, Gethin Pyrs, Edmund Rees, Gwynfor H Roberts, Cyng. Sirol Gwennol Ellis ac Enid Williams Clerc
3. **Còd Ymddygiad**: Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Mai:** derbyniwyd y Cofnodion fel rhai cywir gan GBJ gyda **ER** yn eilio
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion:**
   - 5.1. Archwiliwyd dros y Polisi Yswiriant a phenderfynwyd bod angen ychwanegu'r Cerfluniau Pren sy yn y parc picnic ac i'r clerc gysylltu gyda'r cwmni i drafod y mater.
   - 5.2. Trafod y Rheolau Mewnol a'i derbyn
     - i) Rheolaethau Mewnol (derbyn)
     - ii) Asesiad Risg (ail restru'r Asesiad Risg a derbyn)
6. **Gohebiaeth:**
   - 6.1. Sgubor Rin derbyniwyd e-bost yn eglur bod ymweliad safle i gymryd lle hwyrach yn y mis i drafod ac archwilio'r ardal. Ni chaniateir i aelod o'r Cyngor Cymuned fod yn bresennol.
7. **Ffurflen Monitro:**
   Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn
8. **Mantolen Banc:**
   Edrychwyd dros y fantolen, hyd yma mae popeth mewn trefn.
9. **Talu Anfoneb:**
   Iona Edwards – Archwilydd cyfrifon 2021-22 cynigiodd GBJ gydag GHR yn eilio talu'r anfoneb o **£55.00** + TAW £11.00 = **£66.00** gyda siec rhif **100370** (S151)
10. **Gair gan y Cyng. Sirol Gwennol Ellis** cyflwynodd ei hun ac edrychodd ymlaen i'r cyd-weithio.
11. **Unrhyw fater arall:**
    - 11. 1. Cadarnhad fod 2 sesiwn Chwarae Allan wedi ei archebu.
    - 11.2. Clwb gofal Ysgol Pentrefoelas – penderfynwyd ystyried y cais diwedd flwyddyn y Cyngor ac yn y cyfamser gofyn am ffigyrau o beth mae'r cynllun yn costio.
    - 11.3. Ffordd o Penrhyn i'r Garn angen sylw
    - 11.4. Coeden yn tyfu i'r ffordd wrth Rhydlydan angen sylw
12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf Gorffennaf 4ydd 2022**

Arwyddwyd_____________________________ Dyddiad____________________

Cadeirydd